# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR ARIANNU ALLANOL

### A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 5, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DDYDD MERCHER 3 AWST 2016 AM 3.00PM

**YN BRESENNOL:**

| Y Cynghorydd | Y Cynghorydd | Y Cynghorydd |
|---|---|---|
| M C Child | W Evans | D H Hopkins |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| S Harvey | Cyfarwyddwr Rhaglen Bae'r Gorllewin |
| J James | Cyfrifydd Cyfalaf |
| S Martin | Cydlynydd Perthynas y Sector Gwirfoddol |
| W Parkin | Uwch-gyfreithiwr |
| M Sweeney | Cynnal a Chadw Draenio Cynlluniedig a Rheoli'r Arfordir |
| E Williams | Swyddog Cyllid Ewropeaidd ac Allanol |
| G Windsor | Cyllid Cyfalaf |
| S Woon | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb.**
Y Cynghorydd: R Francis-Davies, J E C Harris, A S Lewis, C E Lloyd, J A Raynor, C Richards aC R C Stewart.

7 **ETHOL CADEIRYDD DROS DRO**

**PENDERFYNWYD** y byddai'r Cynghorydd W E Evans yn cael ei ethol yn Gadeirydd dros dro.

**BU'R CYNGHORYDD W E EVANS (CADEIRYDD DROS DRO) YN LLYWYDDU.**

8 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

9 **COFNODION.**

**PENDERFYNWYD** cytuno bod cofnodion cyfarfod y Panel Ariannu Allanol a gynhaliwyd ar 7 Gorffennaf 2016 yn gofnod cywir.

## 10 GRANT LLYWODRAETH CYMRU I GEFNOGI RHAGLEN RHEOLI PERYGL ARFORDIROL - MORGLAWDD/WAL GYNNAL Y MWMBWLS

Cyflwynodd y Swyddog Cynnal a Chadw Draenio Cynlluniedig a Rheoli'r Arfordir adroddiad a roddodd yr wybodaeth ddiweddaraf am Grant Llywodraeth Cymru i gefnogi Astudiaeth Arfarnu Prosiect ar gyfer Morglawdd y Mwmbwls.

Nododd bod rhaglen Llywodraeth Cymru i fod i helpu awdurdodau lleol i roi prosiectau sy'n cyd-fynd â dewisiadau polisi a argymhellir yn y cynllun rheoli traethlin ar waith.

Mae dyletswydd ar yr awdurdod i gynnal yr amddiffynfeydd presennol ac mae'r morglawdd yn y Mwmbwls wedi'i nodi'n ardal sy'n cydymffurfio â'r meini prawf cymhwysedd a byddai'n cael ei ariannu drwy grant 100%.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol.

**PENDERFYNWYD** bod y panel yn cymeradwyo'r grant i gefnogi creu astudiaeth arfarnu prosiect ar gyfer morglawdd/wal gynnal y Mwmbwls.

## 11 TROSOLWG O'R CEISIADAU PRESENNOL A'R RHAI SYDD AR DDOD AM GYLLID EWROPEAIDD AC ALLANOL.

Cyflwynodd y Swyddog Cyllid Ewropeaidd ac Allanol adroddiad a roddodd yr wybodaeth ddiweddaraf am geisiadau presennol a'r rhai sydd ar ddod am gyllid Ewropeaidd ac allanol eraill.

Amlinellodd effaith bosib pleidlais Brexit ar drefniadau ariannu, gan gyfeirio at y prosiectau canlynol:

- Safle Gwaith Copr yr Hafod-Morfa - Cronfa Dreftadaeth y Loteri - Menter
- Amcan 4 Blaenoriaeth 4 ERDF - Cynnig am Hwb Cyflogaeth ar Ffordd y Brenin
- Amcan 4 Blaenoriaeth 4 ERDF - Cyflwyniadau Cynllun 'Adeiladu ar gyfer y Dyfodol' Llywodraeth Cymru (rhaid ei ddefnyddio neu ei golli)
- URBACT III
- Cronfa Gymdeithasol Ewrop - Y diweddaraf am brosiect Cynnydd
- Prosiect Cam Nesa
- Gweithffyrdd + y diweddaraf am y cynnydd
- Cynllun Datblygu Gwledig 2014-2020
- Cronfa Pysgodfeydd Ewrop
- Llwybrau Treftadaeth Cymru ac Iwerddon (INTERREG Iwerddon-Cymru)
- Exportable (Rhaglen INTERREG Iwerddon-Cymru)

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol.

**PENDERFYNWYD** ar y canlynol**:**

1) y dylid nodi'r diweddaraf am brosiectau yn adrannau 2 i 6 yr adroddiad.
2) y dylid cefnogi cyflwyno cais i Lywodraeth Cymru i geisio cyllid i greu Grŵp Gweithredu Lleol Pysgodfeydd Bae Abertawe.
3) y dylid cefnogi cyflwyno cais drwy raglen Iwerddon-Cymru ar gyfer y prosiect Llwybrau Treftadaeth drwy Brifysgol Abertawe.
4) y dylid cefnogi cyflwyno cais gan raglen Iwerddon-Cymru ar gyfer y prosiect Exportable.

## 12 PROSIECT ARWYNEB 3G LLANDEILO FERWALLT - NODYN BRIFFIO

Cyflwynodd Cydlynydd Perthynas y Sector Gwirfoddol adroddiad "er gwybodaeth" ar y cyfle i'r ysgol ddatblygu'r cyfleusterau cyrtiau caled presennol yn sylweddol a gwella cyfleoedd am ddarpariaeth i'r ysgol a’r gymuned. Disgwylir i'r prosiect ddechrau ganol mis Awst 2016, ac mae'n cynnwys ailwynebu ac ailffensio'r cwrt tenis presennol ag arwyneb artiffisial 3G a fyddai'n addas ar gyfer pêl-droed a rygbi hefyd yn ogystal â gweithgareddau corfforol eraill.

Darperir y prif gymorth ariannol (70k) gan Gronfa Chwaraeon Cymunedol Arwyn Harris, ynghyd â chyfraniadau gan yr ysgol a'r awdurdod lleol (36k). Cyflwynir cais am y gweddill (15k) drwy Grant Datblygu Chwaraeon Cymru.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi**.**

## 13 CYLLID GOFAL CANOLRADD 16/17

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Rhaglen Ranbarthol Bae'r Gorllewin adroddiad a oedd yn gofyn i’r panel gymeradwyo cyllid cyfalaf Cyllid Gofal Canolradd 2016/17 ar gyfer Dinas a Sir Abertawe.

Dywedodd fod yr argymhellion wedi'u hepgor ar gam o'r adroddiad gan gynghori y gofynnir i aelodau gytuno ar gyflwyno cynlluniau cyfalaf a chynnwys cynlluniau ychwanegol yn rhaglen gyfalaf Abertawe sy'n amodol ar gymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru.

Dosbarthodd y fersiynau diweddaraf o Atodiad 1 a 2 a manylu ar y cefndir, y gwaith arfaethedig, amcan y cynllun a'r goblygiadau ariannol.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol.

**PENDERFYNWYD:**

1) Cytuno ar gyflwyno ceisiadau ar gyfer y cynlluniau cyfalaf; a
2) Chytuno ar gynlluniau ychwanegol yn rhaglen gyfalaf Abertawe yn amodol ar gymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.34 pm

**CADEIRYDD**